

## Clwb Mynydda Cymru – Asesu a Rheoli Risg, Teithiau Cerdded yr hydref 2020

Cadarnhawyd gan Bwyllgor Clwb Mynydda Cymru, 3 Awst 2020

Trefniadau ymlaen llaw		
Lledaenu Cofid-19	Pwysleisio nad oes neb i ddod ar daith os ydynt yn dangos arwyddion o salwch	Ysgrifennydd Gweithgareddau
Risg o ddamwain	Trefnu teithiau cerdded yn unig – nid dringo neu sgrialu	Ysgrifennydd Gweithgareddau
Cymysgu ag eraill	Dewis lleoliad teithiau'n ystyriol gan osgoi'r mynyddoedd neu'r llwybrau mwyaf poblogaidd	Ysgrifennydd Gweithgareddau ac arweinydd y daith
Symud ceir	Peidio â threfnu teithiau lle byddai'n angenrheidiol symud ceir yn ystod y dydd	Ysg. G'gareddau ac Arweinydd y daith
Diogelwch personol	Annog aelodau i ddod â diheintydd dwylo gyda hwy	Ysg. G'gareddau
Teithio i'r man cyfarfod	Pwysleisio'r angen i gadw at y rheolau cyfredol ar ddyddiad y daith trwy'r wefan, cyfryngau cymdeithasol a chylch-lythyr e.e. ni ddylid cyd-deithio y tu allan i'r uned deuluol neu swigen gymdeithasol	Ysgrifennyddion Cyffredinol, Gweithgareddau a'r Wefan
Y man cyfarfod	Dewis lleoliadau man cychwyn teithiau'n ystyriol gan osgoi'r llefydd mwyaf poblogaidd fyddai'n debygol o fod yn llawn  Atgoffa aelodau o'r angen i ddilyn y rheolau cyfredol e.e. o ran cadw pellter wrth ymgynnull	Ysg. G'gareddau ac Arweinydd y daith  Arweinydd y daith
Niferoedd	Pennu uchafswm all ddod ar daith yn ôl yr amgylchiadau ar y pryd. Ym misoedd Medi a Hydref, yr uchafrif fydd 12  Trefnu dwy daith yr un diwrnod  Bydd yn hanfodol i aelodau gysylltu ymlaen llaw â'r arweinydd a chael cadarnhad os ydynt am ddod ar daith	Pwyllgor  Ysg. G'gareddau
Yn ystod y daith cadw pellter	Atgoffa aelodau o'r angen i ddilyn y rheolau cyfredol e.e. o ran cadw pellter wrth gerdded  Dewis man addas i orffwyso neu i fwyta gyda digon o le i ymbellhau	Arweinydd y daith
Gatiau	Arweinydd y daith neu aelod penodedig yn unig i agor a chau gatiau gan ddefnyddio menyg	
Croesi camfeydd neu rwystrau eraill	Cyffwrdd cyn lleied â phosib â'r rhwystr ac annog defnydd o ddiheintydd	Arweinydd y daith
Achos o Cofid-19	Cofnodi enwau a rhifau ffôn pob cerddwr  Cadw'r wybodaeth am 28 diwrnod	Arweinydd y daith  Arweinydd a'r Ysg. Gweithgareddau